**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mai 2020**
**(a gynhaliwyd yn electronig drwy Microsoft Teams**
**a'i ffrydio'n fyw drwy'r we)**

| **Yn bresennol:** | | |
|---|---|---|
| Jan Williams | (JW) | Cadeirydd |
| Tracey Cooper | (TC) | Prif Weithredwr |
| Mark Bellis | (MB) | Cyfarwyddwr Gweithredol Polisi ac Iechyd Rhyngwladol a Chyfarwyddwr Canolfan Gydweithredu Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi mewn Iechyd a Lles (WHO CC) |
| Iain Bell | (IB) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwybodaeth Iechyd Cyhoeddus ac Ymchwil |
| Diane Crone | (DC) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Prifysgol) |
| Kate Eden | (KE) | Is-gadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella |
| Dyfed Edwards | (DE) | Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol |
| Nick Elliot | (NE) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Digidol/TG) |
| Huw George | (HG) | Dirprwy Brif Swyddog Gweithredol a Chyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chyllid |
| Sian Griffiths | (SG) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Iechyd Cyhoeddus) a Chadeirydd y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd |
| Fu-Meng Khaw | (MK) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio a Chyfarwyddwr Meddygol |
| Mohammed Mehmet | (MM) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Awdurdod Lleol) a Chadeirydd y Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl |
| Rhiannon Beaumont- Wood | (RBW) | Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd |
| Kate Young | (KY) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Trydydd Sector) |
| **Yn bresennol:** | | |

| | | |
|---|---|---|
| Sally Attwood | (SA) | Cyfarwyddwr Trosglwyddo Iechyd a Lles |
| John Boulton | (JB) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion y GIG a Chyfarwyddwr Gwelliant Cymru |
| Liz Blayney | (LB) | Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Rheolwr Llywodraethu'r Bwrdd |
| Helen Bushell | (HB) | Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| Neil Lewis | (NL) | Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol |
| Sarah Morgan | (SM) | Pennaeth Profiad y Gweithwyr (ar gyfer eitem 4.6) |
| Claire Sullivan | (CS) | Cynrychiolydd Ochr yr Undebau Llafur |
| Stephanie Wilkins | (SW) | Cynrychiolydd Ochr yr Undebau Llafur |
| Verity Winn | (VW) | Archwilio Cymru |
| **Ymddiheuriad:** | | |
| Ni chafwyd ymddiheuriadau. | | |
| | | |

*Dechreuodd y cyfarfod am 09.45*

**ICC 1/2022.05.26 Croeso ac ymddiheuriadau**

Croesawodd JW bawb i'r cyfarfod, gan estyn croeso cynnes i'r rhai oedd yn arsylwi'r trafodion ar-lein. Nododd mai hwn oedd cyfarfod cyntaf y Bwrdd ers newidiadau i'r rheoliadau ar 1 Ebrill, 2022; roedd y Bwrdd bellach yn cynnwys Is-gadeirydd annibynnol, a Chyfarwyddwr Anweithredol a Gweithredol ychwanegol, gan wneud cyfanswm o 8 aelod anweithredol a 6 aelod gweithredol o'r Bwrdd. Cafodd KE ei llongyfarch yn ffurfiol gan JW ar ei phenodi'n Is-gadeirydd ac IB ar ei benodi i rôl Cyfarwyddwr Gweithredol ffurfiol. Aeth JW ymlaen i groesawu NE, sy'n ymuno â'r Bwrdd am gyfnod penodol fel Cyfarwyddwr Digidol/TG Anweithredol, a KY, yn ei chyfarfod bwrdd ffurfiol cyntaf fel y Cyfarwyddwr Anweithredol (Trydydd Sector).

Roedd SA yn ei chyfarfod bwrdd olaf, oherwydd ei hymddeoliad ar ddiwedd y mis. Nododd JW ei bwriad i ddychwelyd at hyn ar ddiwedd y cyfarfod.

Dywedodd JW fod y Bwrdd yn cynnal ei gyfarfodydd yn unol â Chod Ymddygiad ffurfiol y Bwrdd, a bod manylion y rhain ar gael ar y wefan https://phw.nhs.wales/about-us/board-and-executive-team/board-etiquette/.
Roedd y Bwrdd hefyd yn gweithio yn unol â Gwerthoedd Iechyd Cyhoeddus Cymru: *Gweithio Gyda'n Gilydd, Gydag Ymddiriedaeth a Pharch, i Wneud Gwahaniaeth.* Rhoddodd JW grynodeb o rôl y Bwrdd fel Corff Llywodraethu'r sefydliad, gyda chyfrifoldebau penodol am: bennu cyfeiriad strategol; creu a chynnal partneriaethau strategol; pennu archwaeth risg a goruchwylio risgiau strategol; craffu ar gyflawni yn erbyn cynlluniau yn ystod y flwyddyn a phennu naws a diwylliant. Ar y pwynt olaf hwn, pwysleisiodd JW ymrwymiad y Bwrdd i sicrhau y gallai pob aelod o staff ddod i'r gwaith a bod yn nhw eu hunain, heb ofn anfantais neu wahaniaethu o unrhyw fath. Roedd y Bwrdd hefyd am i staff deimlo'n ddiogel wrth godi pryderon, boed ar

eu rhan eu hunain neu oherwydd rhywbeth yr oeddent wedi'i weld. Roedd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru Bolisi Mynegi Pryderon y gellir ei weld ar fewnrwyd y staff.

**ICC 2/2022.05.26 Datgan buddiannau**

Ni wnaeth aelodau'r Bwrdd unrhyw ddatganiadau o fuddiant yn ychwanegol at y rhai a gofnodwyd eisoes ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiant.

**ICC 3/2022.05.26 Strategaeth – Gwelliant Cymru**

Croesawodd JB y cyfle i roi diweddariad i'r Bwrdd am y cynnydd a wnaed yn erbyn cynllun gwaith 2022/23 ; nododd fod hyn yn rhan o Strategaeth Gwelliant Cymru a gymeradwywyd gan GIG Cymru – *'Cyflawni Gwella Ansawdd a Diogelwch' (2021).*

Tynnodd JB sylw at y materion canlynol:

- Roedd ystod ac ehangder y gwaith sydd ar y gweill yn canolbwyntio ar:
  - y dull sefydliadol o ymdrin â chanlyniadau sy'n canolbwyntio ar ansawdd;
  - lledaenu darpariaeth gofal mwy diogel;
  - cefnogi pobl;

  Roedd cyrff GIG Cymru wedi croesawu'r ffocws hwn, gyda chynnydd o ganlyniad i hynny yn y ceisiadau am gymorth a mewnbwn Gwelliant Cymru.

- Y Sefydliad Gwella Gofal Iechyd (IHI) *Partneriaeth Diogelwch Cleifion – Grŵp Cydweithredol Gofal Diogel Gyda'n Gilydd*. Nod y Grŵp yw cefnogi sefydliadau i wella eu blaenoriaethau diogelwch cleifion, ehangu setiau sgiliau ac arbenigedd unigol, a thrwy hynny alluogi sefydliadau i gael eu harwain gan ansawdd. Nododd fod y sefydliad yn arbenigwyr byd-eang cydnabyddedig ym maes ansawdd, gwelliant a diogelwch a bod y contract dwy flynedd wedi'i ddyfarnu yn dilyn proses gaffael helaeth.

- Sefydlu *Rhwydwaith Arweinyddiaeth Glinigol Gweithredol* i gefnogi meddwl strategol a dod â swyddogion gweithredol clinigol at ei gilydd drwy ddull cydweithredol o ddatrys problemau a thynnu sylw at ddiogelwch clinigol ar lefel strategol.  Roedd y Rhwydwaith yn cynnwys cynrychiolwyr o bob bwrdd iechyd ac Ymddiriedolaeth.

- *Capasiti Galw Amser Real* sy’n gweithio i gefnogi sefydliadau i wella eu systemau llif cleifion drwy feithrin y gallu i wella ymwybyddiaeth sefyllfaol; roedd hyn wedi ysgogi adborth cychwynnol cadarnhaol.

- Datblygu un llwyfan mesur i ddarparu system safonol ar gyfer timau gwelliant yng Nghymru i gofnodi, dadansoddi a rhannu data i brofi syniadau gwelliant clinigol. Yn dilyn ymgysylltu â'r farchnad yn hydref 2021, ffurfiodd Gwelliant Cymru bartneriaeth â dau arbenigwr meddalwedd i ddatblygu ateb technegol yn seiliedig ar dechnoleg Microsoft Power Platform, i'w gymhwyso ar draws

GIG Cymru. Roedd y camau nesaf yn cynnwys ymarferoldeb ychwanegol a datblygu dangosfwrdd.

- Cynhadledd Genedlaethol Gwelliant Cymru a gynhaliwyd ar 11-12 Mai 2022; roedd dros 350 o gynrychiolwyr wedi mynychu bob dydd, i wrando ar siaradwyr o’r DU a siaradwyr rhyngwladol a dysgu mwy am astudiaethau achos penodol. Roedd y rhai a oedd yn bresennol yn croesawu'n fawr y ffaith bod y dyddiad arloesol hwn wedi'i ddychwelyd yng nghalendr y gynhadledd welliant.

- Y bartneriaeth 5 mlynedd rhwng y Sefydliad Iechyd a Gwelliant Cymru, gan gefnogi gwelliannau cynaliadwy ar gyfer heriau cymhleth a chyflwyno methodolegau dylunio a thechnoleg.

- Iechyd a gofal sy'n cael eu harwain gan ansawdd drwy system rheoli ansawdd effeithiol. Roedd ymgynghorwyr arbenigol wedi cynorthwyo i brofi'r dull gweithredu ac wedi gwella'r ddealltwriaeth o sut i ddiwallu anghenion ledled Cymru.

- Cymryd rhan mewn dau ddigwyddiad sydd i ddod: un yn Gothenburg ym mis Mehefin, ac yna ail un yn Orlando yn ddiweddarach yn 2022.

- Y dull rhanbarthol arfaethedig o weithio, a gyflwynir o dan Bolisi Newid Sefydliadol, i sicrhau bod rhaglen waith Gwelliant Cymru yn cael ei chydgysylltu'n genedlaethol a'i chyflawni'n lleol.

Diolchodd JW i JB am ei gyflwyniad trawiadol, gan nodi ei thryloywder; gwahoddodd aelodau'r Bwrdd i wneud sylwadau.

Cynigiodd KE ei gwerthfawrogiad i JB a'r tîm cyfan. Nododd gyflwyniad diweddar JB i'r Pwyllgor Diogelwch a Gwella Ansawdd (QSIC) ar un elfen yn unig o'r rhaglen waith - y Ganolfan Gwelliant ac Arloesi; cafodd ei hysgogi gan ehangder y rhaglen i geisio sicrwydd ynghylch capasiti a gallu'r tîm i gyflawni. Roedd JB yn cydnabod yr angen i feithrin cydnerthedd pellach, ac i gael rhywfaint o flaenoriaethu posibl; fodd bynnag, roedd yn hyderus o'i gyflawni.

Nododd DE hefyd raddfa a chyflymder y gwaith; roedd yn ystyried Gwelliant Cymru fel esiampl ar gyfer ysgogi newid ar draws GIG Cymru. Nododd y cydweithio â’r Sefydliad Gwella Gofal Iechyd a gwnaeth sylwadau ar y gwahanol fodelau darparu gofal iechyd sydd ar waith yn y DU ac UDA; Gofynnodd DE a oedd hyn yn effeithio ar y contract. Dywedodd JB fod y sefydliad yn un byd-eang a bod y contract yn canolbwyntio ar gyd-destun GIG Cymru, er mwyn sicrhau perthnasedd ac effeithiolrwydd.

Gofynnodd CS am sicrwydd y byddai'r model cyflenwi rhanbarthol yn ystyried unrhyw oblygiadau teithio i staff, yn enwedig o ystyried y cynnydd presennol mewn costau byw. Cadarnhaodd JB hyn a'r bwriad i fod yn hyblyg o ran lleoliadau a threfniadau gweithio.

Roedd NE o'r farn y byddai'r rhaglen waith drawiadol yn rhoi hwb i sefydliadau wrth fynd i'r afael â gwelliannau o ran ansawdd a diogelwch; gofynnodd am ystyriaeth bosibl o ran cyfleoedd gofal cymdeithasol ehangach. Roedd JB yn cydnabod rôl allweddol gofal cymdeithasol a gwasanaethau ehangach awdurdodau lleol a dywedodd y byddai cyfarfod wedi'i drefnu gyda Gofal Cymdeithasol Cymru yn mynd i'r afael â'r mater hwn.

Nododd SG hefyd yr angen i weithredu yng nghyd-destun y system gyfan, nid mewn ysbytai yn unig; Cadarnhaodd JB fod hyn yn wir.

Gofynnodd JW i JB gyfleu gwerthfawrogiad y Bwrdd i'r tîm am yr holl waith sydd ar y gweill ar draws y GIG a'r system gofal ehangach yng Nghymru; roedd lefel y diddordeb a gynhyrchwyd yn y cyflwyniad yn dangos y pwysigrwydd a roddodd y Bwrdd i'r agenda gwella ac arloesi ac ar gefnogi Gwelliant Cymru fel adnodd cenedlaethol.

**Nododd** y Bwrdd Strategaeth Genedlaethol Gwelliant Cymru '*Cyflawni Gwella Ansawdd a Diogelwch'* a **chafodd sicrwydd** o'r Adroddiad Strategaeth a thrafodaethau.

| | |
|---|---|
| **ICC 4/2022.05.26** | **Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd** |
| **ICC 4.1/2022.05.26** | **Adroddiad y Prif Weithredwr** |

Wrth gyflwyno ei Hadroddiad, tynnodd TC sylw at y materion canlynol:

- Ail-ddynodi Iechyd Cyhoeddus Cymru yn Ganolfan Cydweithredu Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) ar gyfer Iechyd a Llesiant am bedair blynedd arall. Talodd deyrnged i MB a Mariana Dyakova am eu harweiniad gwych o'r Ganolfan, a brofwyd gan yr amser byr a gymerodd Sefydliad Iechyd y Byd i gymeradwyo'r ail-ddynodi.

- Presenoldeb ar 19 Mai 2022 ym Mhwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd, i roi tystiolaeth yn ei *Ymchwiliad i anghydraddoldebau iechyd meddwl*. Estynnodd TC ei diolch i Julie Bishop, Cyfarwyddwr Gwella Iechyd, a Jo Hopkins, Cyfarwyddwr y Ganolfan Cymorth Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod a aeth gyda hi i sesiwn ymchwiliad y pwyllgor. Diolchodd hefyd i Nathan Jones am gefnogi'r gwaith paratoi. Roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd cyn y cyfarfod ar gael drwy'r ddolen ganlynol: https://busnes.senedd.cymru/documents/s121322/CYPE6-02-22%20-%20Papur%201.pdf

- Sefydlu Gweithrediaeth y GIG a gyhoeddwyd yn *Cymru Iachach* yn 2018 ond gohiriwyd oherwydd pandemig COVID-19. Roedd prif ddiben Gweithrediaeth y GIG yn canolbwyntio ar ddwyn ynghyd swyddogaethau gwella, perfformiad a chynllunio ar lefel genedlaethol. Roedd JB wedi cynrychioli Gwelliant Cymru yng nghyfarfod cyntaf y Grŵp Llywio ar 23 Mai 2022.

- Cyhoeddi, ar 25 Mai 2022, *Gwaith Teg ar gyfer Iechyd, Llesiant a Thegwch, canllaw* ar gyfer awdurdodau lleol, byrddau iechyd ac asiantaethau rhanbarthol a lleol eraill ar wella iechyd, llesiant a thegwch drwy weithredu ar waith teg. Diolchodd TC i Ciaran Humphries am arwain y gwaith a'r Athro Ceri Phillips am gadeirio'r grŵp. Gellir cael gafael ar y ddogfen drwy’r ddolen ganlynol: **https://phw.nhs.wales/services-and-teams/healthy-working-wales/fair-work-for-health-well-being-and-equity/**

- Gwahoddwyd MB gan TC i roi diweddariad ar lansiad yr Uned Gwyddor Ymddygiad ar 19 Mai, 2022. Roedd datblygu’r Uned hon yn adlewyrchiad o'r gydnabyddiaeth gynyddol o'r cyfraniad pwysig y gallai gwyddor ymddygiad ei wneud i sawl agwedd ar waith Iechyd Cyhoeddus Cymru. Estynnodd MB ei ddiolch i Ashley Gould, Cyfarwyddwr yr Uned a'r tîm cyfan, gan eu canmol ar lansiad llwyddiannus. Dywedodd MB y byddai'r Uned yn cysylltu â'r byd academaidd, Prif Swyddog Meddygol Llywodraeth Cymru a swyddogion eraill, ynghyd â Chyfarwyddwyr Rhwydwaith Iechyd y Cyhoedd. Roedd JW wedi cadeirio'r digwyddiad lansio ac ychwanegodd ei llongyfarchiadau i bawb a gymerodd ran; gwnaeth y rhai a oedd yn bresennol (165) sylwadau cadarnhaol drwy gydol y digwyddiad, ac roedd y siaradwyr arbenigol i gyd wedi gwneud sylwadau ar y bwriad strategol blaengar sy’n sail i sefydlu'r Uned.

- Manteisiodd JW ar y cyfle i roi sylwadau ar y digwyddiad ar 24 Mai, 2022 i gyhoeddi canfyddiadau'r prosiect *trais rhywiol a thrais ar sail y rhywiau yn erbyn ffoaduriaid o ddadleoliad i gyrraedd (SEREDA).* Rhoddodd y cefndir i Ganolfan Gymorth ACE gomisiynu’r gwaith ymchwil hwn gan Brifysgol Birmingham. Yn y prif anerchiad, cydnabu Jane Hutt, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, bwysigrwydd y canfyddiadau ar gyfer rôl Cymru fel Cenedl Noddfa ac am waith polisi ehangach yn ymwneud ag atal trais yn erbyn menywod a merched. Talodd y Gweinidog deyrnged benodol i Jo Hopkins, Cyfarwyddwr Canolfan Gymorth ACE, am ei ffocws ar yr agenda hon drwy gydol ei gyrfa a'i chyfraniad sylweddol at ddatblygu polisi. Gellir cyrchu’r ddogfen drwy’r ddolen ganlynol: Gellir cael gafael ar y ddogfen drwy’r ddolen ganlynol: https://www.birmingham.ac.uk/research/superdiversity-institute/sereda/index.aspx

Rhoddodd MM ganmoliaeth i’w gydweithwyr am eu gwaith ar y prosiect gwaith teg a llesiant, gan nodi'r cyfleoedd ar lefel llywodraeth leol i ddatblygu'r agenda hon.

**Derbyniodd** y Bwrdd yr Adroddiad a **chafodd sicrwydd** o'i gynnwys.

**ICC 4.2/2022.05.26 Newid Amser Sgrinio Serfigol Cymru - diweddariad**

Rhoddodd MK y wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y camau a gymerwyd mewn ymateb i adwaith y cyhoedd i'r newid a wnaed i'r amser sgrinio ar gyfer menywod a phobl 25-49 oed sydd â serfics; a gyflwynwyd ar ddechrau'r flwyddyn, yn unol ag argymhellion Pwyllgorau Sgrinio'r DU a Chymru, gan fod hyn wedi ysgogi cyhoeddusrwydd andwyol sylweddol.

Roedd y papur yn nodi cefndir y newid a'r camau a gymerwyd i'w weithredu. Canolbwyntiodd MK ar y camau a gymerwyd yn dilyn gweithredu, gan gynnwys Adolygiad Ar ôl Gweithredu (AAR) a hwyluswyd gan SA. Amlinellodd y broses o benodi asiantaeth greadigol i gynorthwyo gydag ymgyrch adeiladu ymddiriedaeth, cyfarfod â chydweithwyr yn y DU i rannu dysgu a phenderfyniad Pwyllgor Sgrinio Cymru i gyhoeddi nodiadau ei gyfarfodydd ar wefan Llywodraeth Cymru.

Diolchodd JW i MK a gwahodd cwestiynau:

- Nododd SW y cyfeiriad at ddefnyddio asiantaeth greadigol allanol a gomisiynwyd a gofynnodd a ddylai Iechyd Cyhoeddus Cymru ddatblygu capasiti mewnol ar gyfer y math hwn o waith. Soniodd HG am y defnydd anfynych o gymorth cyfathrebu allanol, a dim ond at ddibenion arbenigol nad oeddent yn gwarantu buddsoddiad mewnol.

- Croesawodd DE y papur a'r defnydd o'r Adolygiad Ar ôl Gweithredu i lywio dulliau gweithredu yn y dyfodol. Roedd yn cydnabod bod gan Iechyd Cyhoeddus Cymru rôl o ran cyfathrebu â'r cyhoedd yn barhaus a chadarnhaodd MK fod hyn yn wir, o ran cyfathrebu uniongyrchol ac anuniongyrchol, drwy drydydd partïon. Rhoddodd enghraifft o ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau ym mhroses drawsnewid Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru, er mwyn llywio camau gweithredu a gwella dulliau cyfathrebu.

- Roedd KY yn cydnabod cyfraniad sefydliadau'r trydydd sector o ran helpu i gyfathrebu a hysbysu defnyddwyr gwasanaethau. Nododd y cyfleoedd y gallai peirianwaith cyfathrebu'r trydydd sector eu cynnig i Iechyd Cyhoeddus Cymru. Ailadroddodd MK ei werthfawrogiad o'r cymorth gan Jo's Trust a Cancer Research UK mewn perthynas â'r mater hwn, gan edrych ymlaen at gyfleoedd ehangach.

- Gofynnodd MM am ragor o fanylion am y rhesymeg dros newid amser y cyfnod o 3 i 5 mlynedd. Esboniodd MK fod sensitifrwydd cynyddol profion HPV yn golygu bod y cyfnod sgrinio diwygiedig yn briodol. Cytunodd HB i ddosbarthu nodyn briffio Cwestiynau Cyffredin ar gefndir y newid.

- Gofynnodd JW i KE gymryd sicrwydd ar ran y Bwrdd llawn, drwy’r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella, ar y dysgu llawn o'r broses Adolygiad Ar ôl Gweithredu.

**Camau gweithredu: HB : KE/MK**

**Derbyniodd** y Bwrdd y diweddariad a **chafodd sicrwydd** o'r Adroddiad a rôl barhaus y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella wrth symud y gwaith yn ei flaen ar ran y Bwrdd.

**ICC 4.3/2022.05.26 Adroddiad Perfformiad Integredig (Mis 1)**

Wrth gyflwyno'r Adroddiad Perfformiad Integredig, nododd HW y broses ddiweddar o bennu cyllidebau a chytuno ar y Cynllun Gweithredol; dywedodd nad oedd Llywodraeth Cymru wedi ymateb eto i gyflwyno’r Cynllun Tymor Canolig Integredig. O safbwynt adnoddau, mae sefyllfa mis 01 yn rhagweld cydbwysedd ar ddiwedd y flwyddyn. Yna gwahoddodd HG arweinwyr gweithredol i roi sylwadau ar eu priod feysydd:

- Tynnodd NL sylw at y pwyntiau canlynol:

    - Y gostyngiad yn absenoldeb staff y mis hwn.
    - Cydymffurfio ag arfarniad ar 52.7% a'r gwaith sy’n mynd rhagddo o’i gymharu data a ddelir yn lleol â'r hyn a gedwir ar y Cofnod Staff Electronig (ESR).
    - Mae gofynion dilyniant cyflog ar waith o fis Hydref 2022, sy'n gofyn am adolygiad diwedd blwyddyn ar gyfer tua 80 o staff. Cadarnhaodd NL fod cymorth ar gael i reolwyr a staff i fodloni'r gofyniad hwn.
    - Gwaith pellach ar y Dangosfwrdd i gynnwys cydraddoldeb ac amrywiaeth, goramser ac oriau ychwanegol. Byddai'r Pwyllgor Pobl a Datblygu’r Sefydliad yn ystyried y diwygiadau arfaethedig.

**Camau gweithredu: MM/NL**

Gofynnodd KE am gyfraddau brechu staff. Nododd nad oedd cyfraddau brechu staff rhag y ffliw yn cyfateb i'r rhai ar gyfer brechu staff rhag COVID-19. Roedd y Pwyllgor Pobl a Datblygu’r Sefydliad wedi nodi cyfradd o 44% yn unig ar gyfer y cyntaf, gydag arolwg staff yn dangos nad oedd 19% o'r ymatebwyr yn ymwybodol bod Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cynnig y brechiad i staff. Cytunodd RBW fod cyfraddau brechu rhag y ffliw yn is na COVID-19, ond rhybuddiodd rhag defnyddio'r arolwg gan mai sampl cyfyngedig yn unig yr oedd yn ei gynnig. Byddai dysgu o'r broses frechu COVID-19 yn llywio rhaglen brechu 2022/23 rhag y ffliw a byddai’r Pwyllgor Pobl a Datblygu’r Sefydliad yn monitro hyn, ynghyd â chysoni data lleol o'i gymharu â'r hyn sydd ar gael drwy’r Cofnod Staff Electronig ESR.

**Camau gweithredu: KE/RBW**

- Soniodd HG am y dull a fabwysiadwyd yn strategaeth gyllideb 2022/23 ynghylch rheoli tanwariant a buddsoddiad anghylchol.

- Tynnodd MK sylw at:

    - y gofynion adrodd a phrofi newydd ar gyfer COVID-19; roedd y rhain wedi effeithio ar wyliadwriaeth gyffredinol. Roedd cyfraddau derbyn i'r ysbyty a chyfraddau marwolaethau yn parhau i ddisgyn, a oedd yn dangos nad oedd cyfraddau heintiau cymunedol yn troi'n angen i gael eu derbyn i'r ysbyty. Cadarnhaodd MK mai Omicron yw’r prif amrywiolyn.
    - Datblygu achos busnes mewn perthynas â'r system wyliadwriaeth.

- Gwerthuso'r llwybr Optometreg ar gyfer Sgrinio Llygaid Diabetig; daeth y llwybr hwn i ben ar 31 Mawrth 2022.
- Y gwelliant mewn amseroedd aros ar gyfer colonosgopïau sy'n gysylltiedig â sgrinio'r coluddyn.
- Perfformiad microbioleg.

• Nododd RBW:

- 82 o ddigwyddiadau yn ystod y cyfnod adrodd; Roedd 98% o'r rhain yn ymwneud â diogelu iechyd a sgrinio.
- Roedd nifer y digwyddiadau a oedd yn weddill wedi gostwng yn sylweddol, o 237 i 37; byddai'r rhan fwyaf o'r rhain yn cau erbyn mis Gorffennaf 2022.
- Un 'digwyddiad dim syndod' yn ymwneud â phostio llythyrau anghywir at gyfranogwyr yr arolwg; Amlinellodd RBW y camau gweithredu a'r hysbysiadau a wnaed.
- Derbyn 4 cwyn a'u cydnabod o fewn yr amser ymateb cychwynnol o 48 awr.

• Cadarnhaodd HG, ar ôl i'r Bwrdd gymeradwyo Cynllun Gweithredol 2022/23 ym mis Mawrth 2022, nad oedd unrhyw faterion i'w nodi ar ddiwedd mis 01.

Diolchodd JW i HG, NL, MK a RBW am eu diweddariadau, gan nodi bod Pwyllgorau'r Bwrdd yn gwneud defnydd rheolaidd o'r Dangosfwrdd Sicrwydd Perfformiad ac yn diolch i bawb sy'n ymwneud â'i lunio bob mis.

**Nododd** y Bwrdd y diweddariad a **chafodd sicrwydd** o'r papurau a'r drafodaeth.

**ICC 4.4/2022.05.26 Egwyl**

**ICC 4.5/2022.05.26 Diweddariad ar COVID-19 a Digwyddiadau Eraill**

Rhoddodd MK ddiweddariad ar dri mater:

• Yr achosion o hepatitis o darddiad anhysbys sy'n effeithio ar blant yn bennaf. Roedd Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU (UKHSA) yn ymchwilio i'r nifer fach o achosion a gofnodwyd ledled y DU, gan gynnwys 17 o achosion yng Nghymru. Nododd MK y gallai canlyniadau i blant fod yn ddifrifol: roedd rhai wedi gorfod cael trawsblannu afu.

• Y sefyllfa o ran ffoaduriaid o Wcráin. Roedd tua 6 miliwn o bobl wedi ceisio noddfa mewn gwledydd eraill. Roedd Cymdeithas Ryngwladol Sefydliadau Iechyd y Cyhoedd (IANPHI) yn gweithio i ddeall sut i baratoi'n well i ymateb i anghenion ffoaduriaid; Gwnaeth MK sylwadau ar ei ymweliad â Gwlad Pwyl bythefnos yn ôl, pan gyfarfu â'r timau a oedd wedi sefydlu canolfannau croeso yng Ngwlad Pwyl ar gyfer ffoaduriaid Wcráin. Roedd arsylwad allweddol yn cynnwys y ffocws cyflym ar seilwaith i ddarparu ar gyfer tua 100,000 o ffoaduriaid y dydd i ddechrau. Roedd gan y canfyddiadau oblygiadau i Gymru fel Cenedl Noddfa a byddai adroddiad o'r ymweliad yn dilyn.

• Mae clwstwr Brech y Mwncïod yn dod i'r amlwg yn bennaf yn Llundain, gan effeithio’n enwedig ar ddynion sydd wedi cael rhyw gyda dynion eraill. Nododd

MK gadarnhad o’r achos cyntaf yng Nghymru o Frech y Mwncïod y bore hwnnw, gyda'r rheolwyr yn dilyn protocolau y cytunwyd arnynt, gan ddefnyddio gweithdrefnau safonol y DU gyfan. Amlinellodd MK y cyngor presennol i'r cyhoedd.

Diolchodd JW i MK am ei ddiweddariad a gwahoddodd gwestiynau:

Gofynnodd SG am y brechlyn sydd ar gael ar gyfer Brech y Mwncïod. Gwnaeth MK sylwadau ar y cyflenwad presennol, a reolir drwy broses a gydlynir yn ganolog. Byddai Cymru'n cael brechlynnau drwy'r trefniadau caffael canolog. Roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio'n agos gydag Is-grŵp Strategaeth Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU.

Gofynnodd SG hefyd am y wybodaeth ddiweddaraf am raglen atgyfnerthu COVID-19 yr hydref. Cadarnhaodd MK y byddai Cymru'n dilyn cyngor y Cyd-bwyllgor ar Frechu ac Imiwneiddio (JCVI). Nododd JW fod Datganiad Gweinidogol diweddar wedi nodi y byddai'r pigiad atgyfnerthu ar gyfer y rhai 65 oed a throsodd.

Gofynnodd KY am y cynnig o frechlyn i ofalwyr di-dâl a fyddai'n cael cynnig y pigiad atgyfnerthu; Cytunodd MK i gadarnhau'r sefyllfa a'r meini prawf cymhwysedd.

**Camau gweithredu: MK**

**Nododd** y Bwrdd y diweddariad a **chafodd sicrwydd** o'r wybodaeth a thrafodaethau dilynol.

**ICC 4.6/2022.05.26 Rhwydweithiau Staff: diweddariad o gynnydd**

Rhoddodd JW grynodeb o raglen cyfarfodydd 2021/22 y Bwrdd gyda chyd-gadeiryddion y Rhwydwaith Staff a chroesawodd Sarah Morgan, Pennaeth Profiad y Gweithwyr, a oedd wedi cychwyn y rhaglen.

Ychwanegodd NL fanylion am y 'gofynion' a wnaed ar y Bwrdd a gwnaeth ef a SM sylwadau ar ba mor gadarnhaol oedd yr ymgysylltu. Dywedodd SM fod yr Adroddiad yn cynnwys 20 o gamau gweithredu, gyda’r rhan fwyaf ohonynt naill ai'n gyflawn neu ar y gweill; roedd yr un eithriad yn ymwneud â'r diffyg ymarferoldeb o fewn y system Cofnod Staff Electronig i gofnodi statws trawsryweddol. Nid mater i Iechyd Cyhoeddus Cymru yn unig oedd hwn ond un sy’n effeithio ar GIG Cymru gyfan; datrysiad yn dibynnu ar uwchraddio’r system yn y dyfodol.

Diolchodd JW i SM am yr adroddiad cyfansawdd a gwahoddodd gwestiynau:

Diolchodd MM i SM a SW am y gwaith a wnaed, fel yr adlewyrchir yn yr Adroddiad Diwedd Blwyddyn; Byddai'r Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol yn pennu rhaglen ymgysylltu yn ystod 2022/23, ac yn edrych ar ffyrdd o ymgysylltu â staff y tu allan i beiriannau'r Rhwydwaith. Tynnodd SW sylw at rôl Undebau Llafur fel cyfrwng ar gyfer ymgysylltu â staff a’i bod yn bwysig adlewyrchu hyn yn y trefniadau.

Cadarnhaodd MM y byddai'r Pwyllgor yn ystyried pwyntiau SW ac yn rhoi sicrwydd ar ran y Bwrdd ynghylch cwblhau'r 'gofynion' sy'n weddill yn 2021'22.

**Camau gweithredu: MM/NL/SM**

Estynnodd JW ei diolch i bob aelod o'r pum Rhwydwaith Staff am eu hymgysylltiad â'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf; Roedd aelodau'r Bwrdd wedi croesawu'r cyfle ac yn edrych ymlaen at barhau i gymryd rhan yn y flwyddyn i ddod

Cafodd y Bwrdd **sicrwydd** ar y cynnydd a wnaed a sefyllfa diwedd blwyddyn 2021/22, fel y nodir yn yr Adroddiad.

**ICC 4.7/2022.05.26 Pwyllgorau'r Bwrdd: Adroddiad gan Gadeiryddion Pwyllgorau**

Wrth gyflwyno'r eitem hon ar yr agenda cydnabu JW rôl y Pwyllgorau wrth gyflawni rhaglenni gwaith sylweddol ar ran y Bwrdd llawn. Roedd yr adroddiad cyfansawdd yn gyfle i gadeiryddion Pwyllgorau a swyddogion gweithredol arweiniol ddwyn unrhyw faterion sy'n peri pryder neu nodyn i sylw holl aelodau'r Bwrdd.

Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd (KRIC)

Rhoddodd SG groeso i NE i aelodaeth y pwyllgor ac edrychai ymlaen at weithio gydag ef. Nododd y gwaith sydd ar y gweill ar hyn o bryd, gydag amserlen y cyfarfod nesaf ar gyfer mis Mehefin. Nid oedd unrhyw faterion o bryder i'w hadrodd i'r Bwrdd.

Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol (ACGC)

Wrth roi diweddariad, nododd DE gylchrediad y cofnod o gyfarfod y Pwyllgor ym mis Mawrth gyda phapurau'r Bwrdd. Roedd cyfarfod diweddaraf y Pwyllgor ar 5 Mai wedi canolbwyntio ar yr adroddiadau blynyddol, gan geisio sicrwydd ar ran y Bwrdd ar amrywiaeth o faterion. Cyfeiriodd at drefniant cynnal yr Uned Cyflenwi Cyllid fel un o'r ystod o faterion a ystyriwyd. Dywedodd DE hefyd fod asesiad diwedd blwyddyn yr Archwiliad Mewnol yn 'rhesymol'. Nododd HG gyfarfod terfynol gydag archwiliad yn ystod yr wythnos i ddod a chyfeiriodd at y ffaith bod Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cymryd safbwynt gwahanol i Archwilwyr Cyffredinol eraill ynghylch y sefyllfa a aseswyd; Cytunodd HG i ddosbarthu nodyn yn amlinellu'r materion.

**Camau gweithredu: HG**

Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol

Roedd MM wedi croesawu KY yn ddiweddar i'w chyfarfod cyntaf o’r pwyllgor; roedd y Pwyllgor wedi ystyried y ffordd orau o gysoni ei waith â'r blaenoriaethau sefydliadol dros y flwyddyn i ddod. Nid oedd unrhyw faterion yn peri pryder.

Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella

Rhoddodd KE ddiweddariad llafar gan gynnwys trafodaethau yng nghyfarfod y pwyllgor ar 18 Mai. Roedd hyn yn cynnwys:

- Archwiliad dwfn yn canolbwyntio ar Hwb Arloesi a Gwella Gwelliant Cymru; byddai'r Pwyllgor yn cael y wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am hynt hyn.
- Diweddariad am y rhaglen brechu rhag y ffliw.
- Adfer rhaglenni sgrinio; Croesawodd KE y cynnydd o ran dychwelyd cyfraddau rhaglenni sgrinio'r coluddyn i lefelau cyn COVID-19.
- Ystyried cyfres o adroddiadau blynyddol a diweddariadau ar Atal a Rheoli Heintiau, Diogelu, ac Iechyd a Diogelwch.
- Nododd RBW fod y pwyllgor hefyd wedi ystyried a chymryd sicrwydd ar Safonau Iechyd a Gofal.

Ar ei rhan hi ei hun, a TC, diolchodd JW i gadeiryddion y Pwyllgorau, y Gweithredwyr arweiniol, aelodau a phawb a fu mewn cyfarfodydd, am eu gwaith rhagorol drwy gydol y flwyddyn; roedd eu 'baich gwaith' ar ran y Bwrdd llawn yn ganolog i gynnal llywodraethu da.

**Nododd** y Bwrdd y diweddariadau a ddarperir yn yr Adroddiadau a **chafodd sicrwydd** o'r cynnwys a'r drafodaeth.

**ICC 5/2022.05.26 Eitemau i'w Cymeradwyo**

**ICC 5.1/2022.05.26 Risg Strategol**

Cyflwynodd RBW y papur, gan nodi mai'r diben yw cyflwyno'r Gofrestr Risg Strategol ddiwygiedig, ynghyd â'r disgrifyddion archwaeth risg arfaethedig yn erbyn pob un o'r themâu strategol.

Dywedodd RBW fod y Bwrdd wedi dyrannu Sesiwn Ddatblygu benodol i drafod a llunio'r themâu risg strategol diwygiedig, ac i archwilio'r disgrifydd archwaeth risg i'w neilltuo i bob thema risg. Hyd yn hyn, nid oedd y Bwrdd wedi llunio datganiad cyffredinol o archwaeth risg, ond byddai'n rhoi ystyriaeth bellach i wneud hynny.

Diolchodd JW i RBW am ei gwaith yn arwain y trafodaethau ynghylch y maes llywodraethu pwysig hwn a gwahoddodd gwestiynau, neu sylwadau:

Croesawodd MM y cynnydd a wnaed ac eglurder y cynllun a'r dull gweithredu. Roedd y themâu risg strategol arfaethedig a'r disgrifyddion archwaeth risg cysylltiedig yn nodi'r risgiau allweddol sy'n wynebu'r sefydliad, ac roeddent yn realistig, o safbwynt difrifoldeb ac effaith, pe baent yn digwydd.

**Ystyriodd** y Bwrdd y disgrifyddion archwaeth risg a'r gofrestr risg strategol ddiwygiedig a **chymeradwyo'r** dull arfaethedig, gan nodi'r rhesymeg dros ystyried risg strategol 6 ar seiberddiogelwch, mewn sesiwn breifat.

**ICC 5.3/2022.05.26 Llywodraethu Pwyllgor y Bwrdd**

Cyflwynodd HB ddau bapur i'w cymeradwyo gan y Bwrdd:

- Yr Adroddiad Blynyddol cyfunol ar gyfer Pwyllgorau lefel y Bwrdd; roedd hwn yn crynhoi'r adroddiadau yr oedd y Bwrdd a'i Bwyllgorau wedi'u hystyried yn ystod y flwyddyn flaenorol.

- Adolygiad o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor, yn unol ag arfer da.

Nododd SW nad oedd Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol yn cyfeirio at weithio mewn partneriaeth ag undebau llafur ac awgrymodd yr angen i wneud hyn yn glir. Cytunodd MM, NL a HB i weithio gyda SW y tu allan i'r cyfarfod i wneud y diwygiadau perthnasol.

**Camau gweithredu: MM/NL/HB/SW**

**Ystyriodd** a **chymeradwyodd** y Bwrdd yr Adroddiad Blynyddol Cyfunol ar gyfer Pwyllgorau lefel Bwrdd a'r Cylch Gorchwyl diwygiedig, yn amodol ar ddiwygiad i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol, i gynnwys cyfeiriad at y Fforwm Partneriaeth ac ymgysylltu â staff.

**ICC 5.3/2022.05.26 Rhaglen Gyfalaf**

Wrth gyflwyno’r papur hwn nododd HG y gostyngiad sylweddol yn nyraniad cyfalaf dewisol 2022/23; roedd hyn yn unol â'r dyraniad i holl gyrff GIG Cymru. Cyfeiriodd at y broses o geisio am gyfalaf a'r dull blaenoriaethu a nodir yn y papur.

Nododd HG y pwysau costau ychwanegol sy’n gysylltiedig â chostau uwch ar gyfer deunyddiau crai a effeithiodd yn bennaf ar wariant cyfalaf. Tynnodd sylw'r Bwrdd yn benodol at ddatblygiad cyfalaf yng Ngogledd Cymru a gofynnodd am gymeradwyaeth i symud £60,000 o gynllun cryfhau llawr Parc Magden, yn ogystal â'r swm wrth gefn o £205,000 i gynllun Ystadau Gogledd Cymru.

Gofynnodd MM a fyddai'r dyraniad cyfalaf is yn effeithio ar gyflawni'r amcanion strategol. Dywedodd HG y byddai'r sefyllfa'n cael ei monitro'n fanwl, o ystyried maint y gostyngiad; roedd lefel y buddsoddiad mewn cynnal a chadw/adnewyddu TG dros y ddwy flynedd diwethaf yn awgrymu llai o angen i fuddsoddi yn y meysydd hyn yn 2022/23.

**Cymeradwyodd** y Bwrdd y cynlluniau gwariant cyfalaf dewisol arfaethedig ar gyfer 2022/23, a ddiwygiwyd i gynnwys symud £265,000 o Barc Magden i gryfhau'r llawr/swm wrth gefn, i gynllun Ystâd Gogledd Cymru. **Nododd** y Bwrdd hefyd y rhaglen cyfalaf strategol newydd mewn perthynas â Bron Brawf Cymru a'r ddwy brif raglen gyfalaf strategol, LINC ac RISP, a reolir gan Raglen Gydweithredol y GIG.

**ICC 5.4/2022.05.26 Cofnodion a Log Gweithredu o Gyfarfod y Bwrdd**

Cadarnhaodd y Bwrdd fod y cofnodion yn gofnod cywir o’r cyfarfod.

Dywedodd HB nad oedd unrhyw bryderon ynglŷn â'r log gweithredu.

**ICC 6/2022.05.26 Eitemau i'w Nodi**

**ICC 6.1/2022.05.26 Adroddiad y Cadeirydd**

**Nododd** y Bwrdd Adroddiad y Cadeirydd i'r Bwrdd ar y materion a ystyriwyd yng nghyfarfod Preifat y Bwrdd ar 31 Mawrth 2022.

**ICC 7/2022.05.26 Dyddiad Cyfarfod Ffurfiol Nesaf y Bwrdd**

Trefnwyd cyfarfod nesaf y Bwrdd ar 28 Gorffennaf 2022

| **ICC 8/2022.05.26** **Diwedd y Cyfarfod Cyhoeddus** |
|---|
| Cyn cau'r cyfarfod, talodd JW deyrnged i SA, sy'n ymddeol ar ôl gyrfa broffesiynol o 41 mlynedd. Yn ystod y cyfnod hwnnw, roedd SA wedi datblygu arbenigedd pwnc ar draws nifer o ddisgyblaethau corfforaethol: newid sefydliadol; llywodraethu; rheoli rhaglenni a phrosiectau; cynllunio strategol a gweithredol. Myfyriodd JW ar y ddyled fawr o ddiolchgarwch sydd gan Lywodraeth Cymru, y GIG ehangach ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i SA, am ei chyfraniad sylweddol a'i hymrwymiad di-ildio i werthoedd a diben y GIG. Roedd SA wedi bod yn was cyhoeddus rhagorol a byddai'n golled fawr i fywyd cyhoeddus yng Nghymru. Ymunodd y Bwrdd â JW i ddymuno ymddeoliad hir a hapus i SA a phob llwyddiant yn ei chynlluniau ar gyfer y dyfodol.<br><br>Daeth y cyfarfod i ben am 12.20pm |